

## **P-05-1020 Cyflwyno proses apelïadau yng Nghymru mewn perthynas â'r holl Raddau Asesu Canolfannau ar gyfer rhaglen arholïadau cyhoeddus 2020**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan 'Parents in Wales', ar ôl casglu cyfanswm o 87 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai'r canlyniadau ar gyfer arholïadau 2020 gael eu harfarnu ar sail graddau asesu canolfannau. Fodd bynnag, yr hyn sydd ei angen ar ddysgwyr yn awr yw proses dryloyw ar gyfer apelïo yn erbyn unrhyw raddau asesu canolfannau a allai fod wedi cael eu gostwng yn sgïl y meini prawf asesu a bennwyd gan CBAC, a hynny gan ddiystyru mesurau cydadferol; hynny yw, amgylchiadau amrywiol ymhlith dysgwyr sy'n effeithio ar ddata.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Rhai enghreifftiau

- salwch neu faterion meddygol ymhlith dysgwyr a arweiniodd at absenoldeb o'r ysgol, achosion o fethu arholïadau ffug a phroffion pwnc, a gostyngiad yn y data olrhain;
- anghysondebau neu broblemau staffïo a effeithiodd ar ansawdd yr addysgu ac yn effeithio ar ganlyniadau data dysgwyr;
- dysgwyr ag anghenion ychwanegol a oedd yn absennol, o bosibl, neu wedi'u hynysu, neu na chafodd gefnogaeth ddigonol o ran eu hanghenion addysgol arbennig; byddai hyn yn effeithio ar yr holl ddata ac yn eithrio eu potensial;
- plant sy'n derbyn gofal a allai fod yn mynd drwy newidiadau o ran eu hysgol neu eu rhieni maeth, ac yn profi trawma emosiynol a allai effeithio ar ddata.

Mae Cymwysterau Cymru wedi mynegi pryder yn y cyfryngau ynghylch y ffaith y gallai'r broses o ddefnyddio graddau asesu canolfannau gynnwys

elfen o chwyddiant o ran y canlyniadau a gafodd eu harfarnu gan athrawon. Os yw'r pryder hwn yn un dilys, mae hefyd yn bosibl y byddai athrawon, er mwyn gwrthbwysu'r chwyddiant hwn, yn tueddu i ddefnyddio graddau cydadferol, sef graddau wedi'u gostwng, er mwyn sicrhau patrwm perfformiad arferol yn yr ysgol. Felly mae'n debygol y bydd rhai myfyrwyr yn siomedig â'u graddau asesu canolfannau, ac yn yr achosion hynny, dylai fod modd iddynt geisio apêl yn erbyn eu hysgolion.

Parents Voices in Wales.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru